



Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd



Pecyn Ymgeiswyr



## Llywydd ac Is-Ganghellor, Yr Athro Cara Aitchison

MA(Anrh), PgDRLP, Tyst Add, MA, PhD, FAcSS, FRGS, FHEA

### Rwyf wrth fy modd eich bod wedi dangos diddordeb ym Mhrifysgol Metropolitan Caerdydd ar yr adeg allweddol hon yn natblygiad y Brifysgol.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn brifysgol fyd-eang sy'n boddhau anghenion dinesig, economaidd a rhyngwladol Cymru. Dros fwy na 150 o flynyddoedd mae'r Brifysgol wedi sefydlu ei hunan yn yrrwr addysg a thrawsnewid cymdeithasol ac yn gatalydd ar gyfer arloesedd a thwf economaidd. .

Mae pwyslais portffolio academiaidd y Brifysgol ar addysg ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sydd wedi'u cydnabod yn broffesiynol. Bydd y rhaglenni a addysgir yn alinio ag agenda ymchwil, arloesedd a menter y Brifysgol a fydd yn effeithio ar gelf a dylunio, busnes a rheoli, addysg a pholisi cymdeithasol, chwaraeon a gwyddorau iechyd, a thechnolegau digidol, data a dylunio.

Mae llwyddiannau diweddar y Brifysgol i'w gweld wrth iddi gael ei dyfarnu yn brifysgol fodern uchaf ei pherfformiad ar gyfer ansawdd ei hymchwil yn REF 2014, ennill Gwobr Pen-blwydd y Frenhines am arloesedd yn 2015, llwyddo i sicrhau swyddi i 96% o'r myfyrwyr yn arolwg Cyrchfannau Gadawyr Addysg Uwch 2016, ei lle yn 1af yng Nghymru a 4ydd yn y DU yn y *People and Planet League 2016*, a'i hachredu yn 2017 yr unig brifysgol yng Nghymru i gael y Siarter Busnesau Bach a'r Nod Menter Cymdeithasol ac, yn fwyaf diweddar, yn codi pum safle yn y *Complete University Guide 2018* a phedwar safle yn *The Guardian University League Table 2018*.

Mae ein Cynllun Strategol newydd 2017/18 - 2022/23 yn adeiladu ar y gwelliannau hyn ac yn arwydd o newid sylweddol i'r Brifysgol drwy amlinellu rhaglen o saith blaenoriaeth:

- Sefydlu Prifysgol wedi'i gyrru gan werthoedd sy'n hyrwyddo creadigrwydd, amrywiaeth, rhyddid ac arloesedd i gynhyrchu trawsnewid addysgol, ymchwil ag effaith, twf economaidd cynaliadwy, cydlynid cymdeithasol a iechyd a lles.
- Gwella ansawdd a chanlyniadau addysgu a'r profiad ehangach i'r myfyrwyr er mwyn datblygu profiad, gwybodaeth, hyder, gwytnwch a sgiliau EDGE (Moesegol, Byd-Eang, Digidol ac Entrepreneuriaidd).
- Arallgyfeirio gael sefydlu Ysgol Dechnolegau newydd Caerdydd.
- Datblygu 'Academiau Byd-eang' a fydd yn cyflawni darpariaeth ôl-raddedig ac ymchwil rhyngddisgyblaethol, rhyngwladol a thrawiadol a 'Cholegau Agored Caerdydd' i gynnig llwybrau dilyniant i'r Brifysgol.
- Twf wedi'i reoli ym mhob un o Ysgolion y Brifysgol.
- Gwella gweithgareddau ymchwil ac arloesedd y Brifysgol a fydd yn cynnwys twf sylweddol o ran maint, ansawdd, gwerth ac effaith ymchwil ac arloesedd.
- Datblygu synergedd rhwng y ddarpariaeth ar y campws ac oddi ar y campws.

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn Brifysgol wych sydd â chraidd moesegol cryf ac awch i ddatblygu. Os ydych yn credu y gallwch helpu i gyflawni ein newid sylweddol, byddaf yn falch i glywed oddi wrthyh.





# Am y Brifysgol

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn Brifysgol fyd-eang lewyrchus a sefydlwyd yn 1865 sydd â hanes cyfoethog a sefydlog mewn prifddinas Ewropeaidd fywiog. Gan fod portffolio academiaidd ganddi sydd â gogwydd at addysg ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sydd wedi'u cydnabod yn broffesiynol, mae'r Brifysgol yn cynnig mwy na 200 o gyrsiau sydd â phwyslais cryf ar gyflogadwyedd ac ar addysgu rhagorol.

Mae bron 20,000 o fyfyrwyr gan y Brifysgol wedi ymrestru ar raglenni yng Nghaerdydd a gyda phartneriaid cydweithredol ar draws y byd. Daw ein myfyrwyr o fwy na 140 o wledydd ac rydym yn ymrwymedig iawn i ddatblygu pob un o'n myfyrwyr yn ddinasyddion byd-eang. Mae cryfderau sylweddol gan y Brifysgol yn cyflawni rhaglenni symudedd staff a myfyrwyr rhyngwladol ac mae'r cwricwlwm i israddedigion a'r profiad ehangach i fyfyrwyr yn cael eu datblygu er mwyn croesawu cyfleoedd symudedd byd-eang ochr yn ochr â mentrau cyflogadwyedd.

Mae ein Cynllun Strategol newydd, a gafodd ei gymeradwyo gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn y Gwanwyn yn 2017, yn rhagweld cynnig cryf i'r myfyrwyr a fydd yn eu galluogi i ddatblygu gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn raddedigion EDGE (moesegol, byd-eang, digidol ac entrepreneuriaid).

Mae ein hymchwil a'n harloesedd yn greiddiol i'n haddysgu ac yn yr ymarfer REF mwyaf diweddar dyfarnwyd y Brifysgol yn brifysgol fodern orau am ansawdd yr ymchwil.

**Ein gweledigaeth yw cael bod yn un o'r 50 prifysgol orau yn y DU. Byddwn yn gwneud hyn drwy adeiladu ar yr uchelgeisiau sydd wedi'u hamlinellu yn ein cynllun strategol 2012-2017 sy'n dweud y bydd y Brifysgol yn dod yn adnabyddus am:**

- ✓ Darpariaeth uchel ei hansawdd a'r myfyrwyr yn y canol a chwricwla a fydd yn berthnasol yn rhyngwladol a fydd yn hyrwyddo cyflogadwyedd a llwyddiant personol myfyrwyr
- ✓ Rhagoriaeth o ran trosglwyddo gwybodaeth/ymelwa ar wybodaeth, ag ethos cryf o ymchwil ac entrepreneuriaeth yn greiddiol
- ✓ Creadigrwydd ei staff, ei myfyrwyr a'i graddedigion

- ✓ Rhagoriaeth ei hysgolion academiaidd, a phob un yn nodedig yn ei maes

## Ein cenhadaeth yw:

- ✓ Cynnig cyfleoedd dysgu â'r myfyrwyr yn y canol, a fydd yn hygyrch, yn hyblyg, yn gynhwysol, yn gyfleoedd gydol oes ac a fydd o'r safon uchaf
- ✓ Darparu diwylliant lle y gall ymchwil cymhwysol a menter lewyrchu
- ✓ Datblygu canolfannau rhagoriaeth sefydlog a newydd mewn addysg broffesiynol, ymchwil cymhwysol a throsoglwyddo gwybodaeth
- ✓ Darparu gwasanaethau a fydd yn boddhau anghenion Cymru a'r cymunedau ehangach drwy weithio mewn partneriaeth â chyrff yn y ddinas, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol.

Mae'r Brifysgol wedi'i lleoli ar ddau gampws yng ngogledd orllewin a gogledd ddwyrain Dinas Caerdydd. Mae Campws Llandaf, sydd wedi'i leoli yn y gogledd orllewin rhwng Eglwys Gadeiriol Llandaf ac Afon Taf, yn gartref i Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd ac Ysgol Reoli Caerdydd. Mae'r ddwy Ysgol mewn adeiladau newydd, arobryn wedi'u hadeiladu i'r diben. Yn ogystal ag ystod eang o wasanaethau dysgu, addysgu a chymorth i'r myfyrwyr, mae Oriel Gelf a'r PDR (Canolfan Genedlaethol ar gyfer Ymchwil i Ddylunio a Datblygu Cynhyrchion) yno hefyd. Mae Campws Llandaf yn gartref hefyd i ystod o ddarpariaethau gwyddorau iechyd gan gynnwys labordai arbenigol, Canolfan Bodiateg a Chanolfan Therapi Iaith a Lleferydd.

Mae cyfleusterau chwaraeon o safon rhyngwladol gan Gampws Cyncoed yng ngogledd ddwyrain y ddinas ac yno mae Ysgol Chwaraeon Caerdydd ac Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd. Yn rhan o Gynllun Strategol y Brifysgol 2017/18 – 2021/22, mae'r Brifysgol yn datblygu Prif Gynllun newydd ar gyfer yr ystâd ac yn buddsoddi i greu Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd unedig a fydd, dros amser, wedi'i lleoli ar Gampws Cyncoed. Yn ddiweddar cafodd mwy na £50m ei fuddsoddi i wella'r cyfleusterau ar gyfer myfyrwyr ac ymchwil yng Nghyncoed a neuadd chwaraeon newydd ac arena athletau awyr agored i godi ein henw da yn rhyngwladol ymhellach yn y maes hwn. Bydd cyfnod nesaf y datblygiad a fydd yn dechrau yn haf 2018 yn cynnwys pwll nofio newydd a neuaddau preswyl newydd ar gyfer y myfyrwyr er mwyn datblygu

campws a fydd gyda'r gorau yn y byd ar gyfer Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd.

Mae'r Brifysgol newydd sefydlu Ysgol Dechnolegau Caerdydd ac mae cynlluniau ar y gweill i leoli'r Ysgol ar gampws Canol Dinas ar lan y dŵr drws nesaf i Orsaf Caerdydd Canolog o 2021 ymlaen. Cafodd yr Ysgol, sy'n canolbwyntio ar y galw ymhlith myfyrwyr ac anghenion cyflogwyr o ran Technoleg Glyfar a'r Cyfryngau Digidol, Gwyddor Data a Gwybodeg, a


Pheirianeg a Thechnoleg Dylunio, ei lansio yn y Senedd ym Mawrth 2018. Mae cynlluniau yn symud ymlaen hefyd i symud Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd o Gampws Cyncoed i'r Campws Canol Dinas i'w chyd-leoli gydag Ysgol Dechnolegau Caerdydd.

**Lawrlwythwch Grynodedb o'n Cynllun Strategol 2017/18 – 2022/23 yma**





# Strwythur Gweithredol a Threfniadaethol



<b>Lefel 1:</b>	Is-Ganghellor a Chadeirydd Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor, y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academaidd
<b>Lefel 2:</b>	Aelodau Grŵp Gweithredol yr Is-Ganghellor, y Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academaidd
<b>Lefel 3:</b>	Aelodau'r Bwrdd Rheoli a'r Bwrdd Academaidd
<b>Lefel 3:</b>	Aelodau'r Bwrdd Rheoli
<b>Lefel 3:</b>	Aelodau'r Bwrdd Academaidd (mae'r Bwrdd Academaidd yn cynnwys aelodau o'r staff yn ogystal â Lefelau 1-3)

Cymeradwywyd gan Fwrdd y Llywodraethwyr yn Ebrill 2017 i'w weithredu'n llawn erbyn 2017/18.

## Y pum Ysgol Academaidd yw busnes a gyrwyr craidd Prifysgol Metropolitan Caerdydd. Rhyngddyn nhw, maen nhw'n cynnig mwy na 100 o raglenni academaidd a phroffesiynol gwahanol.

### Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Mae'r Ysgol yn gartref i 1,200 o fyfyrwyr sydd yn unfryd o ran eu huchelgais a brwdfrydedd gwirioneddol o blaid ymholi creadigol. Maen nhw'n wneuthurwyr ac yn feddylwyr ym meysydd celfyddyd gain, dylunio, pensaerniaeth ac amrywiaeth o ymarferion crefft. Mae gweithdai a stiwdios gan yr Ysgol sy'n sicrhau y gall myfyrwyr weithio fel gweithwyr proffesiynol o'r eiliad y byddan nhw'n dechrau eu hastudiaethau.

### Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

Mae'r Ysgol yn cyflawni Addysg Gychwynnol i Athrawon ers mwy na 60 mlynedd ac mae'n cael ei chydnabod yn un o'r canolfannau mwyaf ar gyfer addysg a hyfforddiant i athrawon yn y DU. Mae ffigurau recriwtio ardderchog gan Adran y Dyniaethau a'r Adran Datblygiad Proffesiynol, ynghyd ag enw da yn gynyddol yn genedlaethol ac yn rhyngwladol am ragoriaeth.

### Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Fe wnaeth Ysgol Chwaraeon Caerdydd ac Ysgol Gwyddorau Iechyd Caerdydd uno yn 2017 i ffurfio Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd. Bydd yr Ysgol newydd wedi'i lleoli ar Gampws Cyncoed sy'n cael ei ddatblygu ar hyn o bryd i gynnig campws gyda'r mwyaf modern o'i fath ar gyfer chwaraeon a'r gwyddorau iechyd. Mae'r Ysgol Gwyddorau Iechyd bresennol yn cynnwys y gwyddorau biofeddygol, y gwyddorau iechyd, gwyddorau bwyd, seicoleg, podiatreg, technoleg ddeintyddol a iechyd y cyhoedd. Mae'r Ysgol yn gartref hefyd i'r Ganolfan Diwydiant Bwyd sydd ar y blaen yn fyd-eang ac sydd newydd ennill grant £11m oddi wrth Lywodraeth Cymru i sicrhau rhagor o arloesi a buddsoddi yn y sector allweddol yma o'r economi Gymreig.

Mae'r Ysgol Chwaraeon bresennol wedi sefydlu enw yn rhyngwladol am ansawdd ei dysgu a'i haddysgu, ei hymchwil a'i harloesedd ac mae cryfderau ganddi ar draws amrywiaeth o gampau ac ymarferion: cafodd cyflwyniad REF 2014 y Brifysgol i Chwaraeon a Gwyddorau Ymarfer, Hamdden a Thwristiaeth ei ddyfarnu'n gyfartal 7fed yn rhestr y Times Higher Education. Bydd yr Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd newydd yn parhau i ddatblygu ei harbenigedd presennol, gan gynnwys ei Chanolfan Dadansoddi Perfformiad fyd-eang, a datblygu hefyd synergeddau newydd rhwng chwaraeon a iechyd, gan gynnwys ehangu ei darpariaeth o ran meddyginiaeth ymarfer a chwaraeon.

Mae record lwyddiannus dros dymor hir gan y Brifysgol mewn chwaraeon elít a gaiff ei gryfhau wrth i ni fuddsoddi ymhellach mewn

cyfleusterau, hyfforddiant, cryfder a chyflyru, a dadansoddi perfformiad. Mae Campws Cyncoed yn gwneud cyfraniad pwysig a sylweddol i chwaraeon yn y ddinas drwy agor ei ddrysau i fwy na 2,500 o bobl ifanc bob wythnos sy'n cymryd rhan yn y rhaglenni chwaraeon y mae'r Brifysgol a'n partneriaid yn eu cynnig.

### Ysgol Reoli Caerdydd

Mae'r Ysgol, sydd wedi'i lleoli mewn adeilad newydd gwych gan gynnwys Swit Fasnachu Bloomberg, yn cynnig ystod eang o raglenni a fydd wedi'u cynllunio'n ofalus i helpu myfyrwyr i gael bod yn ddeniadol iawn i gyflogwyr. Mae Ysgol Reoli Caerdydd wedi addysgu tua 4,500 o fyfyrwyr o bob rhan o'r byd, gan gynnwys ar ei rhaglenni MBA ac MSc blaenllaw.

### Ysgol Dechnolegau Caerdydd

Mae Ysgol Dechnolegau newydd Caerdydd wedi'i lleoli ar Gampws Llandaf a bydd yn symud i gampws a gaiff ei adeiladu i'r diben yng Nghanol y Ddinas o 2020/21. Bydd yr Ysgol newydd hon yn adeiladu ar y cyrsiau Cyfrifiadureg presennol, gan ganolbwyntio ar y Cyfryngau Cymdeithasol, Technoleg Glyfar, Gwyddor Data a Gwybodeg a Dylunio Technoleg. Mae mwy na 20 sefydliad wedi cefnogi'r Ysgol newydd gan gynnwys Sony, y BBC, Y Swyddfa Ystadegau Gwladol ac ystod eang o gwmnïau digidol a thechnoleg a cholegau ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd a fydd yn gweithio mewn partneriaeth gyda'r Brifysgol i ddatblygu a chyflawni rhaglenni cymhwysol.

### Canolfannau Rhagoriaeth

Mae Canolfannau Rhagoriaeth gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd ym mhob un o'i Hysgolion, i gyd yn canolbwyntio ar ddylunio a pherfformiad er mwyn mwyafu potensial pobl a thwf economaidd.

Mae'r PDR (Y Ganolfan Genedlaethol ar gyfer Perfformiad a Dylunio Cynhyrchion) yn un o brif ganolfannau dylunio'r DU sy'n gweithio gyda mwy na 300 o gwmnïau cynhyrchu a thechnoleg. Mae'n llwyddo'n arbennig i ddatblygu technoleg feddygol a mewnbaniadau llawfeddygol ac, yn 2015, cafodd ei chydnabod â dyfarniad Gwobr Penblwydd y Frenhines am ei defnydd ar dechnolegau sganio digidol 3D mewn llawfeddygaeth i ail-lunio'r genau a'r wyneb.

Mae Labordy Profiad Canfyddiad (Perception Experience Lab) a'r FAB Lab, sydd wedi'u hachredu gan MIT (Massachusetts Institute of Technology) ynghyd â phethau newydd eraill mewn technoleg canfyddiad gweledol, wedi sefydlu clwstwr o arbenigedd sydd gyda'r gorau yn y byd sy'n gwella ymchwil ac arloesedd y Brifysgol mewn dylunio a pherfformiad dynol.



# Estyn allan a'n partneriaethau byd-eang



**Gweithio mewn partneriaeth gyda'n myfyrwyr a'n rhanddeiliaid yn lleol, yn genedlaethol ac yn fyd-eang sy'n nodweddu Prifysgol Metropolitan Caerdydd.**

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddatblygu ei myfyrwyr yn ddinasyddion dinesig a byd-eang, ac ar hyn o bryd mae myfyrwyr yn y Brifysgol o fwy na 140 o wledydd yn astudio ar gyfer dyfarniadau. Mae symudedd byd-eang yn gydran allweddol o ethos Met Caerdydd a gall myfyrwyr a'r staff astudio mewn mwy na 1,000 o brifysgolion o gwmpas y byd â chyllid ar gyfer rhaglenni symudedd wedi'u cefnogi gan y Brifysgol a'i phartneriaid a gan Ysgoloriaethau Santander a'r Comisiwn Ewropeaidd ar hyn o bryd.

Mae Met Caerdydd yn un o brifysgolion mwyaf rhyngwladol y DU â phartneriaethau ar draws y byd. Mae prifysgolion partner y Met hefyd yn rhedeg llawer o'r graddau sy'n cael eu cynnig yng Nghaerdydd. Gall y myfyrwyr yng Nghaerdydd astudio rhan o'u gradd mewn prifysgol partner a gall myfyrwyr ar raddau Met Caerdydd yn ein sefydliadau partner ddewis astudio rhan o'u rhaglen yng Nghaerdydd. Mae ein partneriaid presennol yn Bahrain, Bangladesh, Bwlgaria, Tsieina, Cyprus, Gwlad Groeg, yr Aifft, Hong Kong, India, Libanus, Moroco, Oman, De Affrica, Singapore a Sri Lanka.

Yng Nghymru mae partneriaethau sylweddol gan y Brifysgol â diwydiant, y llywodraeth a'r trydydd sector a bu'n allweddol wrth ddatblygu llawer o elfennau polisi ac ymarfer economaidd ac addysgol, gan gynnwys datblygiad diweddar y Fframwaith Cymhwysedd Digidol ar gyfer ysgolion yng Nghymru.

O fewn Dinas Caerdydd, o ganlyniad i gytundeb ar y cyd gyda Chyngor Caerdydd, mae Chwaraeon Met Caerdydd wedi derbyn y cyfrifoldeb dros gyflawni Datblygiad Chwaraeon ar gyfer y ddinas, gan gryfhau perthynas y Brifysgol â rhanddeiliaid allweddol megis Chwaraeon Cymru a Chlwb Pêl-droed Dinas Caerdydd, a chynnig cyfleoedd i fyfyrwyr fagu profiad.

Mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i chwarae rôl allweddol yn gatalydd ar gyfer twf economaidd ac yn yrrwr newid cymdeithasol ac addysgol. Mae'n cynnig ystod eang o raglenni 'estyn allan' gydag ysgolion a cholegau a digwyddiadau a darlithoedd sy'n agored i'r cyhoedd. Mae'r Brifysgol yn bartner allweddol yn y cynnig am Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd gyda diwydiant a gyda Phrifysgol Caerdydd, Prifysgol De Cymru a 10 awdurdod lleol yn ne-ddwyrain Cymru.



# Estyn allan yn fyd-eang...



- Partneriaid Byd-eang
- Addysg Drawswladol
- Swyddfeydd Tramor Met Caerdydd



# Ein myfyrwyr

Mae profiad y myfyrwyr yn greiddiol i'n sefydliad. Rydym yn rhoi'r cyfle i'n myfyrwyr gael gwireddu eu potensial gan roi iddyn nhw'r wybodaeth, y sgiliau a'r profiad fydd eu hangen arnyn nhw i sicrhau'r yrfa o'u dewis. Rydym wrthi'n gyson yn ceisio gwella profiad ein myfyrwyr drwy fuddsoddi yn ein staff a'n cyfleusterau a thrwy fireinio a gwella ein gweithrediadau mewn ymateb i adborth y myfyrwyr.





## NSS (Arolwg Cenedlaethol y Myfyrwyr) a Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu\*

Yn Arolwg Cenedlaethol Boddhad Myfyrwyr 2016-17, dwedodd 84% o'n myfyrwyr eu bod yn fodlon yn gyffredinol a chafodd unrhydd rhaglen o leiaf ym mhob un o'r pum Ysgol sgôr o 100% ar gyfer boddhad cyffredinol. Yn Fframwaith Rhagoriaeth Addysgu 2017 dyfarnwyd Gwobr Arian i'r Brifysgol. Ffocws allweddol y Cynllun Strategol 2017/18 – 2021/22 yw gwella ymhellach ymgysylltiad y myfyrwyr a phrofiad ehangach y myfyrwyr a chafodd swydd Dirprwy Is-Ganghellor Ymgysylltiad Myfyrwyr ei chreu yn 2017 yn benodol i yrru'r maes hwn ymlaen o lefel uchaf y rheolwyr.

Myfyrwyr wedi'u lleoli yng Nghaerdydd a De Cymru (2015/16)  
10,256

Myfyrwyr wedi'u lleoli yn Llundain a thramor (2015/16)  
9,636



61% Israddedig

2% Ymchwil

37% Ôl-raddedig a addysgir



**Rygbi Menywod** Tîm cyntaf wedi ennill y Gynghrair

### Pêl-droed Dynion

- Enillwyr Pencampwriaeth BUCS
- Wedi cyrraedd y 6 uchaf yn Uwch Gynghrair Cymru yn eu tymor cyntaf
- Yn ail yn y gemau ar gyfer lle yng Nghynghrair Europa

### Pêl-droed Menywod

- Tîm cyntaf yn bencampwyr Uwch Gynghrair y De am yr 8fed tro (BUCS)
- Tîm Myfyrwyr y Flwyddyn (Nation Radio) yn 2016
- Yngghyd â thîm y Dynion, sefydliad gorau ar gyfer Pêl-droed BUCS Chwaraeon

**Rygbi Dynion** 3ydd Tîm wedi ennill dyrchafiad

**Tennis Dynion** Tîm cyntaf wedi ennill dyrchafiad yn y Cyrraedd rownd derfynol Cwpan y Conference

### Medalau BUCS

**Aur unigol**  
**Morgan Jones**  
Athletau dan do

**Arian unigol**  
**Fiona Hockey**  
Naid bolyn  
**Gwen Northall**  
Jwdo  
**Charlotte Wingfield**  
200m

**Tîm cyfnwied 4 x 100 dynion**  
**Tîm cyfnwied 4 x 100 menywod**

**Efydd unigol**  
**Amy Odunaia**  
200m  
**Tîm cyfnwied dan do y menywod**  
**Tîm cyfnwied dan do y dynion**

**Pêl-fasged Menywod** Tîm cyntaf wedi ennill y Gynghrair

**Criced Dan Do Dynion** Tîm cyntaf wedi ennill Cynghrair y Gorllewin

**Pêl-droed Menywod** Tîm cyntaf wedi ennill y Gynghrair a chyrraedd rownd derfynol Cwpan y Conference

**Pêl-droed Dynion** Tîm cyntaf wedi ennill y Bencampwriaeth 4ydd tîm wedi cael dyrchafiad



Fe wnaeth cyfanswm o **35 aelod o'r staff, myfyrwyr a chyn-fyfyrwyr** gymryd rhan ym **Mabolgampau Olympaidd Rio 2016** yn athletwyr, hyfforddwyr a staff cymorth gwyddor **chwaraeon**. Enillodd **Helen Glover** fedal aur am rwyfo ac enillodd **Aled Siôn Davies** ddwy fedal aur am daflu'r pwysau a'r ddisgen (paralympaidd). Enillodd **Daniel Bibby** a **Sam Cross** fedalau arian yn y Rygbi (7 bob ochr) hefyd.

## Arolwg Cychfannau Gadawyr Addysg Uwch

Fe wnaeth 96% o'n graddedigion gael swydd neu aethon nhw ymlaen i astudio ymhellach o fewn chwe mis iddyn nhw raddio, yn ôl y data diweddaraf.  
**Dyma'r ffigur uchaf gan unrhyw brifysgol fodern yng Nghymru gan osod Met Caerdydd yn chwartzel uchaf holl brifysgolion y DU.**





# Dysgu ac addysgu eithriadol

Mae gan Met Caerdydd dull sefydlog tuag at ddysgu, addysgu ac asesu sydd â sail mewn: safonau academaidd o'r ansawdd orau; gweithio mewn partneriaeth gyda myfyrwyr; dysgu gweithgar; profiad gwaith; gwirfoddoli a symudedd allanol; dinasyddiaeth fyd-eang; ac addysgu ar sail ymchwil. Ein nod yw datblygu graddedigion creadigol, gwydn y mae galw mawr amdanynt gyda doniau, sgiliau a phrofiadau a fydd yn eu galluogi i gael effaith ar eu proffesiwn neu lwybr dewisol.

Yn y blynyddoedd diwethaf rydym wedi:

- ✓ Gwella cyflymder ac ansawdd yr adborth i'r myfyrwyr.
- ✓ Gwella safonau proffesiynol y staff.
- ✓ Hyrwyddo fframwaith er mwyn i'r myfyrwyr gaffael nodweddion graddedigion a fydd wedi'u diffinio'n glir.
- ✓ Datblygu offer i archwilio rhaglenni a rhoi cyngor i dimau'r rhaglenni ym meysydd cynladwyedd a rhyngwladoli.
- ✓ Darparu llawer o gyfleoedd i'r myfyrwyr gael cyfrannu i'r fforymau sy'n gwwneud penderfyniadau.
- ✓ Codi nifer y myfyrwyr sy'n dilyn rhyw elfen o'u rhaglen drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ✓ Meithrin rhwydweithiau dysgu cymdeithasol i gefnogi integreiddio persbectifau rhyngwladol a thraws-ddiwylliannol.
- ✓ Codi nifer y myfyrwyr sy'n cymryd rhan mewn symudedd rhyngwladol.

Mae cyflawni profiad dysgu hyblyg ac uchel ei safon i'r myfyrwyr yn parhau i fod yn greiddiol i'n cenhadaeth a'n gwerthoedd. Bydd y Brifysgol yn ymateb i farchnad addysg uwch fyd-eang sy'n mwyfwy cystadleuol drwy fuddsoddi i ymestyn ei gallu i ddefnyddio dysgu y mae technoleg yn ei wella ac i adnewyddu ei phortffolio o raglenni. Bydd cwricwlwm systematig, rhesymegol yn sail i hyn, gan hwyluso dysgu hyblyg a chynnwys addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang a fydd yn hwyluso addysg draws-wladol.

- ✓ Mae mwy o Gymrodorion Addysgu Cenedlaethol gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd nag unrhyw brifysgol yng Nghymru. Mae 86% o'r staff sydd ar gytundebau academaidd yn 'gymwys i addysgu' gan gynnwys cael eu cydnabod yn gymrodorion. Mae cymwysterau Doethur gan 44% o'r staff academaidd a nod y Brifysgol yw codi hwn i 60% erbyn 2022/23.

Yn y blynyddoedd diwethaf derbyniodd y Brifysgol sawl anrhydedd am ei haddysgu a phrofiadau ei myfyrwyr:

- ✓ Sicrhodd y Brifysgol y lle cyntaf yn yr ISB am y chweched tro yn 2016 am ddarparu cymorth i'r myfyrwyr.
- ✓ Dyfarnwyd Gwobr Genedlaethol y Guardian am Entrepreneuriaeth yn 2015 i'r Ganolfan Entrepreneuriaeth.
- ✓ Daeth y Brifysgol yn 1af yng Nghymru ac yn 4ydd yn y DU yng nghyngair prifysgolion People and Planet yn 2016 sy'n dangos ymrwymiad y Brifysgol i ddatblygiad cynaliadwy ac adeiladu ar ei menter 'Prifysgol Iach'.
- ✓ Yn 2016, roedd 96% o'r myfyrwyr mewn swydd neu astudiaeth bellach chwe mis wedi graddio (Destination of Leavers of Higher Education, 2016).

***Mynnwch wybod rhagor am ein Dysgu ac Addysgu yma.***

***Gallwch weld ein Strategaeth Dysgu, Addysgu ac Asesu 2015 – 2020 yma.***





# Ymchwil sy'n gwneud gwahaniaeth

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd yn ymgymryd ag ymchwil blaenllaw sy'n creu ac yn cymhwyso gwybodaeth newydd. Mae ein hymchwil yn cael ei ddefnyddio'n uniongyrchol mewn busnes, diwydiant, y proffesiynau a'r gymuned ac mae ein gweithgareddau menter ac arloesedd wedi'u halinio â'n portffolio academaidd sydd â gogwydd tuag at addysg ac ymchwil sy'n canolbwyntio ar ymarfer ac sydd wedi'u cydnabod yn broffesiynol.

Mae ymchwil, arloesedd a menter y Brifysgol yn sicrhau effaith ym meysydd celf a dylunio, busnes a rheoli, addysg a pholisi cymdeithasol, chwaraeon a'r gwyddorau iechyd, a thechnolegau digidol, data a dylunio. Ymhlith cryfderau allweddol ymchwil rhyng-ddisgyblaethol a rhyngwladol y Brifysgol mae gwella perfformiad pobl a dylunio cynhyrchion.

Mae'r staff yn gweithio ar ystod amrywiol o weithgareddau menter, gan gynnwys KTP (Partneriaethau Trosglwyddo Gwybodaeth), ymgynghoriaeth, cydweithredu, hyfforddiant ac ymchwil ar gontract. Mae cwmnïau enwog megis Ford (UK), Coca Cola, Nestlé, Robert Bosch a Dowty Aerospace i gyd wedi bod yn ein portffolio o ymchwil cymhwysol a phartneriaid trosglwyddo gwybodaeth.

Mae enw da'r Brifysgol yn rhyngwladol yn tyfu ac mae'r Brifysgol yn ymrwymedig i ddatblygu ei phrif grwpiau ymchwil, gan gefnogi meysydd ymchwil newydd sy'n dechrau dod i'r amlwg a gwireddu cynlluniau uchelgeisiol o ran REF 2021.

Dangosodd canlyniadau REF 2014 fod 80% o gyflwyniadau'r Brifysgol yn 'rhagorol yn rhyngwladol' (3\*) neu o 'safon byd' (4\*), gan ddangos felly mai Met Caerdydd yw'r 'brifysgol ôl-92' uchaf (ac yn safle 41 yn gyffredinol) yn ôl y Times Higher Education. O ran 'effaith' roedd Met Caerdydd yn safle 50 yn gyffredinol ac yn ail o'r 'prifysgolion ôl-92' yn y DU.

Mae'r Cynllun Strategol newydd yn amlinellu cynnig er mwyn creu 'Academiau Byd-eang' i ddatblygu'r ddarpariaeth ymchwil ac ôl-raddedig a addysgir rhyng-ddisgyblaethol a rhyngwladol y Brifysgol. Rhagwelir y bydd yr Academiau Byd-eang yn cysylltu meysydd ymchwil cryf ar draws y Brifysgol, yn

ymateb i heriau byd-eang newydd ac yn datblygu cryfderau'r Brifysgol mewn ymchwil o safon byd mewn meysydd sy'n ymwneud â pherfformiad pobl a dylunio cynhyrchion.

Meysydd ymchwil allweddol:

## Ysgol Gelf a Dylunio Caerdydd

Dylunio uwch-brototeipiau | Pensaerniaeth a Thechnoleg Dylunio Pensaernïol | Hanes, theori ac athroniaeth Celf | Cydweithredu Celf-Gwyddoniaeth | Cerameg | Technoleg ddigidol greadigol | Hanes, theori ac athroniaeth Dylunio | Arferion adeiladu ecolegol | Rhyngweithio corfforedig | Celfyddyd gain | Peirianeg-gwasanaethau adeiladu | Egni amgylcheddol | Dylunio synhwyraidd | Amgylchedd adeiledig cynaliadwy

## Ysgol Addysg a Pholisi Cymdeithasol Caerdydd

Addysg oedolion ac addysg barhaus | Cyfryngau cyfoes | Ysgrifennu creadigol | Drama | Polisi addysg | Technoleg addysgol | Saesneg | Addysg Uwch | Iaith mewn addysg | Addysg gerddoriaeth | Dysgu awyr agored | Addysg gynradd a'r blynyddoedd cynnar | Addysg wyddoniaeth


## Ysgol Reoli Caerdydd





Rheoli a pheirianeg gymhwysol | Cyfrifiaduro a gwybodeg | Menter ac arweinyddiaeth greadigol | Syniadaeth ddarbodus | Rheoli yn y sector cyhoeddus | Systemau ac ynni adnewyddadwy | Cynladwyedd | Twristiaeth | Llif gwerth | Y Diwydiant Gwinoedd

## Ysgol Chwaraeon a Gwyddorau Iechyd Caerdydd

Iechyd cardiofasgwlaidd a heneiddio | Bwyd, maeth a iechyd | Iechyd a rheoli risg | Dadansoddi perfformiad | Ffisioleg | Cymdeithaseg ac athroniaeth chwaraeon | Chwaraeon, ymarfer a seicoleg iechyd | Biomecaneg chwaraeon | Addysgeg a hyfforddi chwaraeon | Datblygu a rheoli chwaraeon | Anafiadau chwaraeon ac adfer

 **Mynnwch wybod rhagor am ein Hymchwil yma**

 **Gallwch weld ein Strategaeth Ymchwil 2014-2019 yma.**





# Caerdydd

**Mae prifddinas Cymru wedi newid yn syfrdanol dros y degawd diwethaf. Mae buddsoddiad yn y ddinas, adnewyddu'r dociau yn ardal wych glan y dŵr, a diddordeb cyffredinol ym mhopeth Cymreig, o'i sîn gerddorol hyd lywodraeth ddatganoledig ar gyfer Cymru, wedi gwneud Caerdydd yn gyrchfan Ewropeaidd cyffrous ac yn brifddinas gwerth byw ynddi.**

Mae Caerdydd yn ffodus gan ei bod yn gartref i drysorau megis Amgueddfa Genedlaethol Cymru, Amgueddfa Werin Cymru, Canolfan y Mileniwm ac adeiladau dinesig gwych ag erwau lawer o barcdiroedd o'u cwmpas. Mae'r ddinas yn gallu ymfalchio mewn digwyddiadau ar hyd y flwyddyn. Er yr holl newidiadau diweddar, mae Caerdydd yn dal i fod yn ddinas sy'n adnabyddus am fod yn gyfeillgar. Mae Caerdydd yn ddinas ifanc, lewyrchus a bywiog sy'n llawn cymeriad ac awyrgylch gydag amrywiaeth o gyfleusterau o'r radd flaenaf ar gyfer chwaraeon, bywyd nos, siopa a manau i ymweld â nhw.

Efallai fod Barcelona yn ddinas enwog ar lan y môr ond Caerdydd sydd â'r datblygiad glan y môr mwyaf yn Ewrop, sef Bae Caerdydd. Mae ardal yr harbwr yn bwysig i'r ddinas erioed ac ar ddiwedd y 19eg ganrif Caerdydd oedd porthladd glo prysuraf y byd.

Yn 1999, crewyd llyn dŵr croyw gan forglawdd Bae Caerdydd ac erbyn heddiw mae tai bwyta, caffis a barrau ffasiynol o gwmpas y dŵr. Mae Roald Dahl Plass a enwyd ar ôl yr awdur enwog a anwyd yng Nghaerdydd, yn sgwâr cyhoeddus rhyfeddol drws nesaf i adeilad modern Llywodraeth Cymru a Chanolfan Mileniwm Cymru. Mae'r ardal ar ffurf amffitheatr sy'n gweithredu yn lleoliad ar gyfer cyngherddau a gwyliau awyr agored dros yr haf. Bydd yn bosib treulio Dydd Sul yn hamddena ym Mae Caerdydd, cael cinio tapas ar y balconi yn y Terra Nova, hufen iâ yn siop Cadwalader i ddilyn cyn mynd ar siwrnai yn y cwch draw i dref glan môr Penarth neu nôl i ganol y ddinas.

Mae Caerdydd yn ddi-os yn brifddinas chwaraeon. Mae Stadiwm y Principality yn amlwg o bob cyfeiriad ac mae'n lleoliad i ddigwyddiadau hanesyddol ym maes chwaraeon o dan ei do symudol oddi ar 1999. Mae'n gyrchfan heb ei ail i gefnogwyr rygbi ac mae Caerdydd ar ddiwrnod gêm ryngwladol yn aml yn llawn o bobl o bob rhan o'r byd. Yn ôl llawer, does unman gwell i wylid digwyddiad chwaraeon mawr

nag mewn stadiwm o safon byd, sydd wedi'i leoli'n anarferol yng nghanol dinas. Nid rygbi yw'r unig atyniad – mae Stadiwm y Principality yn gartref hefyd i Grand Prix Rasio Beiciau Modur Prydain ac mae gornestau bocsiio rhyngwladol wedi'u cynnal yma.

Mae stadiwm newydd sbon gan Glwb Pêl-droed Dinas Caerdydd yn Lecwydd i'r cefnogwyr gael mwynhau'r gemau. Bydd cefnogwyr criced yn mwynhau prynhawn yng Ngerddi Soffia, cartref Clwb Criced Morgannwg, a gall cefnogwyr hoci iâ weld tîm Devils Caerdydd wrthi ar y rinc ger y Bae.


Mae rhai o'r cyfleusterau chwaraeon gorau yng Nghymru gan Met Caerdydd, ond y tu allan i'r Brifysgol mae digon o gyfle ar gyfer chwaraeon hamdden. Mae Afon Taf yn rhedeg drwy ganol y ddinas ac mae'n werth ymweld â'r tiroedd o gwmpas y llyn ym Mharc y Rhath. Mae cyfleusterau o safon byd gan Athrofa Chwaraeon Cymru yng Ngerddi Soffia, gan gynnwys cyrtiau badminton, tennis a phêl-rwyd.

Mae arfordir a chefn gwlad hyfryd a hygyrch yn agos i Gaerdydd, gan gynnwys Bro Gŵyr a Bannau Brycheiniog, lle ceir digon o gyfleoedd ar gyfer chwaraeon a gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored megis beicio mynydd, hwylio, seiclo a cherdded. Mae cysylltiadau trafnidiaeth ardderchog gan Gaerdydd ei hunan. Mae'n agos iawn i'r M4, mae gorsaf drenau Caerdydd Canolog yng nghanol y ddinas ac mae Maes Awyr Caerdydd y tu allan i'r ddinas. Nid yw'r ddinas ond dwy awr o Lundain ar y trênn a gellir cyrraedd y prif gyrchfannau yn y DU a thramor ar awyren.

## Ffeithiau cyflym am Caerdydd:

- ✓ Yn ôl ymchwil gan *MoneySuperMarket.com* mae Caerdydd ymhlith y tair dinas uchaf yn y DU am ansawdd bywyd am y tair blynedd ddiwethaf.
- ✓ Yn ôl arolwg *The Quality of Life in European Cities* mae Caerdydd yn y trydydd safle o ran bod y brifddinas orau yn Ewrop.
- ✓ Ac yn ôl y *Student Living Index 2016* mae Caerdydd yn drydydd o ran bod y ddinas rataf yn y DU ar gyfer costau rhentu.







Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd



Member



Equality Challenge Unit



THE QUEEN'S  
ANNIVERSARY PRIZES  
FOR HIGHER AND FURTHER EDUCATION  
2015

